**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2022

Annwyl Mark,

**Craffu ar adroddiad a chyfrifon blynyddol 2021-22**

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 6 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Gofynnwyd am y wybodaeth a ganlyn, ac mae wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm:

- Nodyn atodol ar y rhaglenni cymorth a gynigir i staff Comisiwn y Senedd.
- Copi o Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir,

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad 1**

1. **Nodyn atodol ar y rhaglenni cymorth a gynigir i staff Comisiwn y Senedd.**

Mae Comisiwn y Senedd yn cynnig nifer o raglenni cymorth i’w staff, gan gynnwys nifer o gynlluniau aberthu cyflog, megis cymorth gyda chostau gofal plant a chostau teithio, taliadau cyflog cynnar ar gyfer y Nadolig, a chronfa galedi a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Mae nifer o opsiynau ar gael i staff gymryd rhan mewn cynlluniau aelodaeth sy'n caniatáu iddynt gael mynediad at amrediad mwy eang o wasanaethau am gost is, megis Cyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil, a hynny drwy ddidyniadau cyflog.

Mae’r tudalennau ar y fewnrwyd sy’n ymwneud â Lles Ariannol, a gafodd eu datblygu fel rhan o Strategaeth Les y Comisiwn, yn darparu cyfeiriadau pellach at gymorth allanol, ynghyd â chanllawiau ariannol.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sydd ar gael i'r holl Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau, a staff y Comisiwn. Llinell gymorth am ddim yw hwn, sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hefyd drwy linc ar y we. Mae gwybodaeth ar gael ar **fewnrwyd y Comisiwn**.

Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnig lefel o gyfrinachedd o'r radd flaenaf yn unol â Chod Moeseg ac Ymarfer y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cwnsela a Seicotherapi, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei throsglwyddo i’r Comisiwn nac i unrhyw Aelod fel y cyflogwr.

Mae'r llinell gymorth yn ffordd i staff gael cyngor ar nifer o faterion, gan gynnwys:

- Dyled
- Cyllid
- Straen
- Gyrfa
- Cydberthnasau
- Tai
- Iechyd
- Teulu
- Addysg
- Galar
- Profedigaeth
- Gwaith
- Problemau cyfreithiol
- Iselder
- Camddefnyddio sylweddau

**2. Copi o Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn.**

Cyhoeddwyd **Strategaeth Carbon Niwtral** y Comisiwn ym mis Chwefror 2021. Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan **Senedd.Cymru**, yn ogystal ag adroddiad y Comisiwn, sef **Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2021-22,** a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgareddau cynaliadwyedd y Comisiwn yn **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22,** ac ar dudalen we ymroddedig Senedd.Cymru ar **gynaliadwyedd.**